Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Mae yna rywbeth hudolus ynghylch garddio

## ...ac mae plant yn gwybod hynny!

**Mae plant bach wrth eu bodd yn yr awyr agored yn darganfod natur.**

Mae yna ddigonedd o bethau i'w gwneud yn yr ardd a gallwch ddatblygu eu profiadau drwy fwynhau’r awyr agored gyda’ch gilydd.

**Mae bod yn gorfforol actif yn yr awyr agored yn galluogi plant ifanc i ddysgu am y byd o’u cwmpas.**

I’w hannog i hoffi garddio, anogwch nhw i ddefnyddio'r 5 synnwyr drwy gyflwyno rhai o’r syniadau canlynol....

- Cyflwynwch eich plentyn bach i fwydod neu bryfed genwair, y fuwch goch gota a gloynod byw a thrafod pa mor bwysig ydyn nhw ym myd natur.
- Plannwch flodau haul a gweld pa mor dal mae’n nhw’n tyfu
- Gwnewch lain a rhoi offer bychan ei hunan i’r plentyn i balu h.y. llwyau mawr, offer cegin. Rhowch datws a moron go iawn i chwarae yn y pridd.
- Defnyddiwch y can dyfrio a dangos yr holl blanhigion sychedig.
- Tyfwch fefus mewn tybiau a mwynhau’r ffrwyth.Bydd eich plant yn gallu gweld fod tyfu planhigion newydd yn hynod o hawdd!
- Gwnewch bin synhwyrol yn yr ardd gyda phridd perlysiau a photiau.

Early Years Wales 2018. Registered in Wales.
Registered Office: Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
Company limited by guarantee 3164233. Charity 1056381

Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Gofrestredi yn Cymru.
Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Elusen 1056381

© Early Years Wales 2018
© Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018